# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 19.06.13 am 7.15 YR HWYR YNG NGHANOLFAN WAUNFAWR.**

**Presennol –** Cynghorwyr

Bryn Jones (Cadeirydd)
Edgar Owen
Cadi Jones
Terry Parry
Sali Burns
Shoned Griffith (Clerc)

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2 Ymddiheuriadau -** Cyng LLGJ, Cyng DJ, Cyng EG, Cyng EW

**3 Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion 15.05.13**

Y Cyng. EO yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng. CJ yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 15.05.2013**

Materion Caeathro – Llwybr Llety i Ysbyty – Dal i aros caniatad un tirfeddiannwr i osod y gamfa ar ei dir.

Materion Waunfawr – Llwybr Pant Gwyn i ffordd yr ysgol – wedi derbyn llythyr gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd gwaith yn cael ei wneud i'r llwybr flwyddyn ariannol nesaf.

**6. Seddi Gwag**

Nodwyd fod llythyr cynnig wedi ei anfon at Mrs Carys Owen, Glyn Awel, Waunfawr ond heb dderbyn ymateb eto.

Mae dal un sedd wag ar y Cyngor Cymuned ar gyfer Caeathro.

## 7. Gerddi Bach

Cyng TP a'r Cyng EW wedi cyfarfod a chwmni Wakemans a Celfyn, Swyddog Adfywio Bro, Cyngor Gwynedd - ceisiadau am grantiau yn cael ei gwneud mewn 3 rhan – ffensio a thacluso, lle chwarae a lle parcio.

Cyflwynwyd Gytundeb Rheolaeth Cae Chwarae Gerddi Bach, Waunfawr ger bron y Cyngor Cymuned a cynnigwyd gan y Cyng TP ac eilwyd gan y Cyng CJ ein bod yn derbyn y Gytundeb. Bydd ddim rhaid cael Les rhwng y Cyngor Cymuned a'r Pwyllgor Cae Chwarae rwan.

Cytunwyd ein bod yn arwyddo y Gytundeb (Copi ynghlwm).

## 8. Adroddiadau

**a. Lloches Bws** - Mynegwyd fod y lloches bws ger yr hen bost angen sylw fod y plaster wedi dod i ffwrdd. Cyng BJ i holi Trefor Beech a Roy Jones am bris. Nodwyd fod y lloches bws yng nghanol y pentref angen ei lanhau hefyd, Cyng BJ i holi Tony Brown.

**b. Y Fynwent –** Cyng SB yn fodlon fod yn aelod o'r Pwyllgor Fynwent ac eiddo.

Derbyniwyd cais yn ddiweddar i gladdu ffetws (baban heb ei eni) derbyniwyd gyngor gan y trefnwr angladdau nad yw'n bolisi gan yr Eglwys yng Nghymru i godi ffi am hyn.

Trafodwyd ffioedd Claddu a cynnigwyd gan y Cyng EO ac eilwyd gan y Cyng SB ein bod yn codi ffioedd eleni o 5%.

**c. Llwybrau Cyhoeddus –** Dim i'w adrodd.

## 9. Materion Cynllunio

### a. Ceisiadau newydd

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

### b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd - Dim

## 10. Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd – Golau Stryd o amgylch Waunfawr
UHY Hacker Young – Newid ffioedd Archwilio
Cyngor Gwynedd – Cyflwr Wyneb Maes Parcio ger y Ganolfan, Waunfawr

Un LLais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor
AON – Cadarnhau taliad yswiriant
Theatr Bara Caws – llythyr diolch am rodd
Urdd Gobaith Cymru – llythyr diolch am rodd
Cyngor Gwynedd – Groeslon, Waunfawr
Y Ffordd rhwng Caeathro a Chaernarfon
Golau Stryd
Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad Cyhoeddus – Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol Drafft
Cyngor Gwynedd - Arwisgo

## 11. Materion Ariannol

### 11.1 Arian wedi ei dalu allan

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Mai | £260.00 |
| Yswiriant AON | £476.70 |
| PJL | £1,406.00 |
| Ysgol Brynrefail | £50.00 |
| Eglwys y Waun | £10.00 |
| G R Services | £510.00 |
| Cyflog Clerc Mehefin | £260.00 |

### 11.2 Arian a dderbyniwyd

### 11.3 Anfonebau i'w talu

| | |
|---|---|
| G R Services | £515.00 |
| Rhodd Cadeirydd a Cyng GOW | £55.00 |
| B Owens | £36.00 |
| T Brown | £36.00 |
| Cyflog Clerc Gorffennaf | £260.00 |

## 12. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

31 o Orffennaf, 2013 yng Nghanolfan Waunfawr.

## 13. Materion Aelodau.

**Y Cyng TP –** Cwyn pobl yn parcio ar y troedffordd bob ochr i'r ffordd ger yr Hen Bost, annodd gweld i ddod i'r ffordd fawr yma.

**Y Cyng CJ** – Cais gan Lywodraethwyr yr ysgol am arwyddion sy'n fflachio yn nodi Araf/Slow. Angen torri coed ger Ty Hen arwydd yr ysgol ddim i'w weld yno. Angen mwy o arwyddion yn y pentref yn nodi bod ysgol yma er diogelwch y plant, rhaid nodi mae'r un briffordd sy'n mynd drwy'r pentref a sydd ger ysgol yr Hendre a mae nifer o arwyddion yno.

**Y Cyng EO** – Dim

**Y Cyng SB -** Dim
**Y Cyng BJ** - Dim